

At: Aelodau'r Pwyllgor Craffu
Cymunedau

Dyddiad: 3 Rhagfyr 2020

Rhif Union: 01824 712554

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU, DYDD IAU, 10 RHAGFYR 2020** am **10.00 am** yn **TRWY GYFRWNG FIDEO**.

SYLWCH: YN SGIL Y CYFYNGIADAU AR DEITHIO A'R ANGEN I GADW PELLTER CYMDEITHASOL, NI GYNHELIR Y CYFARFOD HWN YN EI LEOLIAD ARFEROL. BYDD YN GYFARFOD O BELL TRWY FIDEO-GYNADLEDDA AC NI FYDD AR AGOR I'R CYHOEDD.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

AGENDA

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGAN CYSYLLTIAD (Tudalennau 3 - 4)

Yr Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

4 COFNODION (Tudalennau 5 - 26)

Derbyn -

- a) Cofnodion cyfarfod arbennig y Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd ar 5 Hydref 2020 (copi wedi'i amgáu), a
- b) Chofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd ar 22 Hydref 2020 (copi wedi'i amgáu).

5 RHEOLI PERYGL LLIFOGYDD AR DRAWS SIR DDINBYCH (Tudalennau 27 - 46)

Ystyried adroddiad gan y Peiriannydd Perygl Llifogydd (copi wedi'i amgáu) sy'n amlinellu mesurau rheoli a lliniaru llifogydd er mwyn delio â phob math o lifogydd ar draws y sir.

6 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO (Tudalennau 47 - 72)

Ystyried adroddiad gan y Cydlynnydd Craffu (copi wedi'i amgáu) yn gofyn am adolygiad o raglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor a rhoi'r diweddaraf i'r aelodau ar faterion perthnasol.

7 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGORAU

Derbyn unrhyw ddiweddariadau gan gynrychiolwyr y Pwyllgor ar Fyrddau a Grwpiau amrywiol y Cyngor.

AELODAETH

Y Cynghorwyr

Huw Williams (Cadeirydd)

Graham Timms (Is-Gadeirydd)

Mabon ap Gwynfor

Anton Sampson

Brian Blakeley

Glenn Swingler

Rachel Flynn

Andrew Thomas

Tina Jones

Cheryl Williams

Merfyn Parry

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth

Y Wasg a'r Llyfrgelloedd

Cynghorau Tref a Chymuned

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cod Ymddygiad Aelodau

DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,
(enw)

*Aelod /Aelod cyfetholedig o
(*dileuer un)

Cyngor Sir Ddinbych

YN CADARNHAU fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
(*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(Gweler y nodyn isod)*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd dros WebEx ddydd Llun, 5 Hydref 2020 am 10.30 am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Brian Blakeley, Mabon ap Gwynfor, Rachel Flynn, Merfyn Parry, Glenn Swingler, Andrew Thomas, Graham Timms (Is-Gadeirydd), Cheryl Williams a Huw Williams (Cadeirydd)

Roedd yr Aelodau Cyfetholedig, Kathleen Jones a Neil Roberts yn bresennol ar gyfer eitem 4 ar y rhaglen - Adolygu Penderfyniad Cabinet o ran Cynigion Band B Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif

Roedd yr **Aelodau Cabinet** – y Cyngorydd Huw Hilditch-Roberts, Aelod Arweiniol Addysg, Gwasanaethau Plant ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd yn bresennol ar gyfer eitem 4 ar y rhaglen a'r Cyngorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol yn bresennol ar gyfer eitem 5 ar y rhaglen.

Arsylwyr – Y Cynghorwyr Joan Butterfield, Meirick Davies, Hugh Irving, Alan James, Gwyneth Kensler, Barry Mellor, Melvyn Mile, Paul Penlington, Arwel Roberts, Peter Scott, Rhys Thomas ac Emrys Wynne

HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwyr Corfforaethol: yr Economi a'r Parth Cyhoeddus (GB) a Chymunedau (NS), Penaethiaid Gwasanaeth: Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd (GW) a Chyllid ac Eiddo (SG); Pennaeth Addysg Dros Dro (GD); Pen Reolwr – Cymorth i Ysgolion (JC); Swyddog Arweiniol – Eiddo Corfforaethol a Stoc Dai (DL); Rheolwr Rhaglen – Datblygiad Tai (MD); Pen Syrfewr Siartredig Prisiad ac Ystadau (MJ), Cydlynnydd Craffu (RE) a Gweinyddwr Pwyllgorau (KEJ)

PWYNT SYLW

Yn sgil y cyfyngiadau presennol ar deithio a'r gofyniad i gadw pellter cymdeithasol yn sgil pandemig y Coronafeirws, cynhaliwyd y cyfarfod o bell trwy gyfrwng fideo gynadledda ac nid oedd ar agor i'r cyhoedd. Cafodd pob aelod gyfle i fynychu fel arsylwyr a chafodd y Gohebydd Democratiaeth Lleol wahoddiad i arsylwi hefyd.

1 YMDDIHEURIADAU

Roedd y Cyngorydd Paul Penlington (llofnodwr arweiniol i'r cais galw i mewn ar gyfer eitem 4 ar y rhaglen) wedi cyflwyno ei ymddiheuriad oherwydd ymrwymadau gwaith nad oedd modd eu hosgoi. Nodwyd y byddai'r Cyngorydd Mabon ap Gwynfor yn annerch y Pwyllgor yn ei absenoldeb.

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd yr aelodau canlynol gysylltiad personol ag eitem 4 ar y rhaglen – Adolygu Penderfyniad Cabinet o ran Cynigion Band B Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif –

Y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies – mae'n llywodraethwr yn Ysgol Cefn Meiriadog

Y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts – mae'n rhiant i ddisgybl o Ysgol Brynhyfryd / Llywodraethwr Ysgol Pen Barras

Y Cynghorydd Hugh Irving – mae'n llywodraethwr yn Ysgol Uwchradd Prestatyn

Y Cynghorydd Merfyn Parry – mae'n llywodraethwr yn Ysgol Bryn Clwyd ac Ysgol Gellifor

Y Cynghorydd Arwel Roberts – mae'n llywodraethwr yn Ysgol y Castell

Aelod Cyfetholedig Neil Roberts – mae'n llywodraethwr yn Ysgol y Parc

Y Cynghorydd Peter Scott – mae'n llywodraethwr yn Ysgol Fabanod Llanelwy

Y Cynghorydd Glenn Swingler – mae'n llywodraethwr yn Ysgol Pendref

Y Cynghorydd Graham Timms – mae'n llywodraethwr yn Ysgol Dinas Brân

Y Cynghorydd Emrys Wynne – mae'n llywodraethwr yn Ysgol Brynhyfryd ac Ysgol Borthyn

3 MATERION BRYN FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Datganodd y Cadeirydd ei fwriad i gynnwys y mater canlynol i'w drafod (fel eitem 5 ar y rhaglen) oherwydd bod angen rhoi sylw brys iddo – Adolygu Penderfyniad y Cabinet o ran 'Gwaredu tir yn ymyl Ysgol Pendref, Dinbych'.

Roedd yr eitem yn ymwneud ag ail gais galw i mewn a ddaeth i law yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor ac roedd y Cadeirydd wedi cytuno i'r mater gael ei drafod fel mater brys gyda bwriad o gyflymu'r cais galw i mewn o fewn y terfynau amser a nodir yn Rheolau Gweithdrefn Galw i Mewn y Cyngor. Roedd y papurau atodol a oedd yn ymwneud â'r cais galw i mewn wedi'u cyhoeddi ar 1 Hydref 2020.

4 ADOLYGU PENDERFYNIAD Y CABINET YN YMWNEUD A RHAGLEN YSGOLION YR 21AIN GANRIF - CYNIGION BAND B

Eglurodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor wedi'i alw yn unol â chyfansoddiad y Cyngor i ystyried cais galw i mewn a gyflwynwyd o ran penderfyniad a wnaed gan y Cabinet ar 22 Medi 2020 yn ymwneud â 'Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif – Cynigion Band B'. Roedd y Cabinet wedi penderfynu -

- cymeradwyo dechrau prosiectau yn Ysgol Plas Brondyffryn / Ysgol Uwchradd Dinbych, Dinbych; Ysgol Bryn Collen / Ysgol Gwernant, Llangollen ac Ysgol Pendref, Dinbych, fel rhan o'r cam cyntaf o brosiectau ar gyfer Band B Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif a chyflwyno'r cynigion hyn i Lywodraeth Cymru, a
- pharhau i geisio cyllid ychwanegol ar gyfer ail gam prosiectau Band B ac adolygu'r sefyllfa ymhen 18 mis i ganfod opsiynau ar gyfer gweithredu rhai o'r prosiectau hyn.

Roedd hysbysiad galw i mewn wedi'i gyflwyno gan y Cynghorydd Paul Penlington, ac wedi'i gefnogi gan bedwar cynghorydd arall, i alw am adolygiad o'r penderfyniad ar y sail ganlynol -

“...Rwy'n dymuno galw'r penderfyniad hwn i mewn er mwyn i'r awdurdod adolygu angen Ysgol Uwchradd Prestatyn yn iawn fel mae'n sefyll yn 2020 yn deg ochr yn ochr ag ysgolion eraill. Fel yr ysgol uwchradd fwyaf yn y sir, a'r unig ysgol uwchradd ym Mhrestatyn, mae ganddi achos ar gyfer gwelliant cystal ag eraill sydd wedi'u trefnu ar gyfer cyllid Band B.”

Cyflwynodd y Cydlynnydd Craffu yr adroddiad (dosbarthwyd eisoes) sy'n nodi rheolau'r weithdrefn 'galw i mewn' a sail y cais 'galw i mewn' ac eglurodd pa weithdrefnau mae'n rhaid eu dilyn yn y cyfarfod. Cyfeiriwyd at atodiadau'r adroddiad gan gynnwys adroddiad y Cabinet a ystyriwyd ar 22 Medi 2020 ynghyd ag adroddiad am y 'Broses ar gyfer Cyflwyniad Band B' a oedd wedi'i ddwyn ymlaen o gyfarfod nesaf y Pwyllgor a oedd wedi'i drefnu oherwydd ei fod yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol sy'n ymwneud â'r adolygiad presennol o benderfyniad y Cabinet.

Yn absenoldeb y Cynghorydd Paul Penlington, darllenodd y Cynghorydd Mabon ap Gwynfor ddatganiad ar ei ran. Roedd y Cynghorydd Penlington wedi dweud -

- roedd penderfyniad y Cabinet wedi ei seilio ar gyfarfodydd y Cabinet mor bell yn ôl â 2017 ac nid oedd Ysgol Uwchradd Prestatyn wedi'i chynnwys bryd hynny ac nid oedd wedi'i chynnwys mewn unrhyw gyllid Ysgolion yr 21ain ganrif ar hyn o bryd chwaith
- pan holwyd yn gynharach yn y flwyddyn, dywedwyd wrtho ei bod yn bosibl y byddai Ysgol Uwchradd Prestatyn yn cael ei hystyried yn 2024, ond nid oedd hyn yn ddigon cadarn i ddiwallu anghenion plant ym Mhrestatyn
- nid oedd cynghorwyr wedi cael cyfle i graffu'r broses a arweiniodd at benderfyniad y Cabinet ar 22 Medi ac roeddent wedi'u heithrio o unrhyw broses a arweiniodd ato dros y misoedd diweddar, ac nid oedd wedi gallu ymuno â'r drafodaeth a gofyn cwestiynau priodol yn y Cabinet oherwydd methiannau â chyfarfodydd ar-lein y cyngor
- roedd y sefyllfa yn Ysgol Uwchradd Prestatyn wedi newid yn sylweddol ers 2017 ac roedd yr ysgol angen gwelliant sylweddol, os nad ysgol newydd sbon ar frys
- dywedwyd wrtho fod niferoedd disgyblion yn lleihau, ac nid oedd hyn yn wir – roedd 1,800 o ddysgwyr yn yr ysgol dair blynedd yn ôl, a 1,500 cyson o ddysgwyr ers hynny
- roedd ysgolion cynradd Prestatyn yn ei chael yn anodd ymdopi â'r galw a gyda dim ond un ysgol uwchradd, roedd posibilrwydd y byddai anawsterau sylweddol yn y dyfodol agos
- roedd yr hinsawdd ariannol bresennol a'r dyfodol yn ansicr a heb ymrwymiad pendant i Ysgol Uwchradd Prestatyn, mae'n bosibl na fyddai'n cael unrhyw welliant sylweddol am flynyddoedd
- hyd y gwyddai ef, roedd Ysgol Uwchradd Prestatyn wedi'i hadeiladu ym 1956 gydag ychydig o newidiadau ers hynny a dim gwelliannau mawr, felly roedd angen gwelliant cyflym.

Roedd yr Aelod Arweiniol, y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts, y Pennaeth Addysg Dros Dro a'r Pen Reolwr – Cymorth i Ysgolion yn bresennol. Rhoddodd yr Aelod Arweiniol rywfaint o gefndir i Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif a chynigion Band B, a sut roedd y Pwyllgor Craffu a'r Cabinet wedi ymwneud â'r broses honno dros y dair

blynedd ddiwethaf. Er mwyn eglurder, roedd y Cyngorydd Penlington wedi gofyn y cwestiwn yng nghyfarfod y Cabinet o ran pam nad oedd Ysgol Uwchradd Prestatyn wedi'i chynnwys yn y cynigion ac roedd eglurhad wedi'i roi bryd hynny, a oedd yn seiliedig ar angen a'r broses flaenoriaethu. O ran sail ar gyfer galw'r adolygiad o benderfyniad y Cabinet, ymatebodd yr Aelod Arweiniol fel a ganlyn -

- **Niferoedd disgyblion Ysgol Uwchradd Prestatyn** – roedd ffigurau a ddarparwyd ar gyfer cyfnod y pum mlynedd diwethaf yn dangos gostyngiad cyffredinol o ran niferoedd disgyblion.
Roedd tua 230/240 o ddisgyblion wedi'u derbyn i Flwyddyn 7 yn ystod y cyfnod hwnnw, a cyn agor adeilad newydd Ysgol Uwchradd y Rhyl, roedd y nifer hwn tua 260/270 o ddisgyblion. Roedd cyfran Ysgol Uwchradd Prestatyn o ddisgyblion uwchradd ar draws Sir Ddinbych wedi lleihau mewn termau cymharol o 25% i 21%.
- **Niferoedd sector cynradd Prestatyn** – yn gyffredinol, roedd 2,037 o leoedd ysgol gynradd llawn amser ar draws y dref a'r ardaloedd cyfagos, ac roedd 1,777 o ddisgyblion yn mynychu, a oedd wedi arwain at 260 o leoedd gwag [12%].
Roedd buddsoddiad sylweddol wedi'i wneud yn y sector cynradd ym Mhrestatyn. Roedd nifer derbyn Blwyddyn 7 ar gyfer 2020 yn dangos bod 77.3% yn dod o ysgolion cyfrwng Saesneg yn y dref, 6.3% o ysgolion eraill Sir Ddinbych a 16.4% o'r tu allan i'r sir. Roedd niferoedd disgyblion sydd yn trosglwyddo o'r Rhyl i Brestatyn wedi gostwng ers 2016 a byddai ysgol newydd Crist y Gair yn cael effaith ar niferoedd disgyblion yn y dyfodol hefyd.
- **Cyflwr Adeiladau** – pan gyflwynwyd Cynllun Amlinellol Strategol yn 2017 cafodd Ysgol Uwchradd Prestatyn ei ystyried fel Cyflwr C ac Addasrwydd C. O'i gymharu â'r wyth ysgol uwchradd yn Sir Ddinbych – mae pedwar wedi cael eu cydnabod i fod yn rhan o Fand A (yn dilyn hynny St. Brigid's wedi optio allan) gan adael un Categori B (Ysgol Brynhyfryd), tri Chategori C (St. Brigid's, Ysgol Dinas Bran ag Ysgol Uwchradd Prestatyn), ac un Categori D (Ysgol Uwchradd Dinbych) a gafodd ei weld fel blaenoriaeth uchel. Mae'r rhestr hir i Lywodraeth Cymru wedi cynnwys buddsoddiad i Ysgol Uwchradd Prestatyn ac Ysgol Brynhyfryd. Wrth gydbwysu'r achosion presennol ar gyfer gweddill yr ysgolion Categori C, rhoddwyd blaenoriaeth uwch i St. Brigid's ac Ysgol Dinas Bran o ystyried yr adnoddau cyfyngedig pan gafodd y Cynllun Amlinellol Strategol ei gyflwyno.
- **Datblygu cynllun 5 mlynedd** – yn dilyn y penderfyniad a wnaed, cyfarfu swyddogion asesu â Grŵp Ardal Aelodau Prestatyn a Llywodraethwyr i drafod anghenion brys ac anghenion tymor byr Ysgol Uwchradd Prestatyn a arweiniodd at gynllun 5 mlynedd a gytunwyd.
Roedd meysydd blaenoriaeth yn cynnwys Ffensys a Diogelwch Safle; Coridor Mynediad; Gwyddoniaeth; Technoleg a Chymraeg a Maes Parcio a darparwyd manylion y materion oedd i gael sylw a chynnydd cadarnhaol a wnaed yn erbyn y meysydd blaenoriaeth hynny. Roedd gwaith cynnal a chadw diweddar a gynlluniwyd gwerth £1.64 miliwn wedi'i wneud yn yr ysgol ac roedd gwaith wedi'i drefnu ar gyfer y dyfodol.

Ailadroddodd yr Aelod Arweiniol fod yr argymhelliad i'r Cabinet wedi'i seilio ar broses flaenoriaethu o ran angen mwyaf gyda'r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael. Roedd y Cyngor wedi gweithio'n agos gydag Ysgol Uwchradd Prestatyn i

ddatblygu'r cynllun 5 mlynedd i fynd i'r afael â meysydd pryder ac roedd yr ysgol yn cefnogi'r dull gweithio mewn partneriaeth yn llawn a chydabod y buddsoddiad sy'n cael ei wneud y tu hwnt i'r Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Ychwanegodd y Pennaeth Addysg Dros Dro ei fod mewn cyswllt rheolaidd â'r ysgol ac roedd cynnydd da yn cael ei wneud o ran y cynllun 5 mlynedd. Er mai'r dewis amlwg a ffefrir oedd ar gyfer ysgol newydd, cydnabuwyd bod proses flaenoriaethu ac adnoddau cyfyngedig ar gael ac ar y sail hwnnw, roedd y Pennaeth wedi bod yn fodlon â'r lefel o fuddsoddiad. Cadarnhaodd y Cynghorydd Hugh Irving, Cadeirydd y Llywodraethwyr yn Ysgol Uwchradd Prestatyn y bu buddsoddiad sylweddol yn yr ysgol dros y blynyddoedd, ac er bod methiannau amlwg, derbyniwyd mai ysgol newydd oedd y dewis delfrydol ond nad oedd hyn yn bosibl dan amgylchiadau presennol. Roedd trafodaethau defnyddiol wedi'u cynnal gydag aelodau arweiniol a swyddogion ac roedd rhaglen pum mlynedd o fuddsoddiad wedi'i chytuno fel ffordd ymlaen.

Yn ystod y drafodaeth, gwahoddodd y Cadeirydd aelodau'r Pwyllgor i ofyn cwestiynau cyn gwahodd llofnodwyr y weithdrefn galw i mewn ac unigolion eraill nad oeddent yn aelodau o'r Pwyllgor i wneud yr un fath. Gofynnwyd cwestiynau gan roi ystyriaeth benodol i Ysgol Uwchradd Prestatyn fel a soniwyd yn yr hysbysiad galw i mewn ynghyd ag ysgolion eraill o fewn y sir gan gynnwys cyflwr yr ysgolion hynny a gweithredu'r broses asesu ynghyd â chanlyniad y broses honno o ran categoreiddio, trefn flaenoriaeth a therfynau amser posibl ar gyfer buddsoddiad. Gofynnwyd am eglurder hefyd o ran elfennau cyllid Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif a phrosiectau'r dyfodol.

Ymatebodd yr Aelod Arweiniol, Pennaeth Addysg Dros Dro, Pen Reolwr – Cymorth i Ysgolion a Phennaeth Cyllid i gwestiynau a sylwadau aelodau fel a ganlyn -

- cadarnhawyd bod 12 o ddisgyblion o Brestatyn yn mynychu Blwyddyn 7 yn y Rhyl o fis Medi
- eglurwyd cymhlethdodau safle Ysgol Uwchradd Prestatyn o ystyried maint yr adeilad a llif disgyblion a'r angen i asesu'r effaith ar niferoedd disgyblion ym mlynnyddoedd y dyfodol gan ystyried adeilad newydd Ysgol Uwchradd y Rhyl ac Ysgol Crist y Gair, er mwyn bod â data cadarn ar gyfer cynllunio yn y dyfodol a sicrhau bod buddsoddiad yn cael ei wneud fel rhan o'r broses gyffredinol yn yr ysgolion iawn ar yr amser iawn
- ailadroddwyd bod Corff Llywodraethu a Phennaeth Ysgol Uwchradd Prestatyn yn cael trafodaethau rheolaidd â'r Aelod Arweiniol a swyddogion a'u bod nhw'n gefnogol o lefel y buddsoddiad a'r ymrwymiad a ddarperir i'r ysgol ar hyn o bryd
- dywedwyd o ran derbyniadau Blwyddyn 7 yn Ysgol Uwchradd Prestatyn, roedd 16.4% o'r tu allan i'r sir, a oedd gyfwerth â 39 disgybl, ac roedd y mwyafrif o'r rhain yn dod o ysgolion Sir y Fflint
- eglurwyd y newid o ran cyllid LIC ar gyfer Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif a'r cyfraddau ymyrraeth ar gyfer gwahanol gynlluniau a arweiniodd at fod angen blaenoriaethu'r prosiectau hynny a nodwyd yng nghynigion Band B – ar sail asesiad o ysgolion, nid oedd Ysgol Uwchradd Prestatyn wedi'i nodi i'w chynnwys ym Mand B ar unrhyw bwynt ac roedd wedi'i nodi ar gyfer buddsoddiad yn y dyfodol
- ymhelaethwyd ar yr amrywiaeth o waith a oedd wedi'i gynnwys yn y cynllun 5 mlynedd ar gyfer Ysgol Uwchradd Prestatyn a oedd yn mynd rhagddo ar hyn o

bryd yn nhrefn blaenoriaeth fel a nodwyd gan yr ysgol a chadarnhawyd nad oedd y ffigurau'n cynnwys gwaith llifogydd allanol

- eglurwyd y newidiadau i'r meini prawf ar gyfer Cyllid Ysgolion yr 21ain Ganrif dros amser a oedd yn seiliedig nawr ar gyflwr amgylchedd yr ysgol i ddysgwyr
- eglurwyd y broses flaenoriaethu ymhellach a chytunwyd i ddarparu rhagor o wybodaeth a rhagor o eglurhad o'r broses asesu ysgolion a gwaith gofynnol gan gynnwys trefn flaenoriaethu ar gyfer buddsoddiad ond dywedwyd na fyddai'n bosibl iddynt ymrwmo i derfynau amser na phrosiectau penodol o ystyried lefel yr ansicrwydd yn y dyfodol o ran meini prawf, cyllid a phenderfyniadau gwleidyddol ar lefel leol a chenedlaethol yn y dyfodol
- cyfeiriwyd at raglen cynnal a chadw ysgolion a oedd yn dod i gyfanswm o £9 miliwn ac roedd £2.2 miliwn o hwn ar gael a gellid ystyried hwn ochr yn ochr â Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif hefyd a darparu darlun ehangach o fuddsoddiad ysgol
- eglurwyd y rhesymeg sy'n sail i gynnwys Ysgol Bryn Collen ac Ysgol Gwernant yn y cynigion a gwersi a ddysgwyd o'r prosiectau a gyflawnwyd ym Mand A
- darparwyd sicrwydd y byddai'r cyngor yn parhau i lobio LIC ar gyfer y cyllid ychwanegol i gwblhau ail gam Band B, a oedd yn cynnwys darpariaeth gynradd y Rhyl, ac adrodd yn ôl i'r Cabinet ar hynny ar ôl deunaw mis.

Croesawodd y Pwyllgor y buddsoddiad a wnaed eisoes yn ysgolion Sir Ddinbych ac roedd yn falch o nodi cynlluniau buddsoddi'r dyfodol yn hynny o beth. Roedd y Pwyllgor hefyd o'r farn fod yr eglurhad o'r broses flaenoriaethu a ddarparwyd yn ystod y cyfarfod wedi bod yn ddefnyddiol ond roeddent yn teimlo er mwyn darparu rhagor o eglurder a thryloywder, dylid darparu rhagor o wybodaeth i bob cynghorydd am Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif a chyflwynodd y Cynghorydd Graham Timms gynnig ar sail hynny, ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Merfyn Parry. Roedd y Cynghorydd Mabon ap Gwynfor yn cefnogi'r cynnig hefyd a gofynnodd am derfyn amser ar gyfer cyflwyno'r wybodaeth ofynnol. O'i roi i'r bleidlais, gwnaeth y Pwyllgor -

BENDERFYNU bod gwybodaeth fanwl yn cael ei darparu i bob cynghorydd sir erbyn dechrau 2021 am Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif gan gynnwys -

- (i) cefndir y cyllid a'r broses flaenoriaethu a gaiff ei dilyn i benderfynu pa ysgolion oedd yn deilwng o fanteisio ar fuddsoddiad a phryd;*
- (ii) manylion am fuddsoddiad a wnaed eisoes yn ysgolion y sir a'r sefyllfa bresennol, ac*
- (iii) amlinelliad clir o gynlluniau'r dyfodol, yn amodol ar argaeledd cyllid Llywodraeth Cymru a'r Cyngor, er mwyn sicrhau bod ysgolion Cyngor Sir Ddinbych yn addas ar gyfer y 21ain Ganrif.*

Ar ôl i'r Pwyllgor gytuno ar y penderfyniad uchod, dangosodd llofnodwyr y cais galw i mewn eu bod yn cytuno na ddylai'r cais i adolygu penderfyniad y Cabinet ddatblygu bellach.

[Ymunodd y Cynghorydd Paul Penlington â'r cyfarfod ar ôl y drafodaeth, cyn y bleidlais.]

Yn y fan hyn (12.15 p.m.) cymerodd y pwyllgor egwyl am luniaeth.

5 MATERION BRYD: ADOLYGU PENDERFYNIAD Y CABINET YN YMWNEUD Â GWAREDU TIR YN YMYL YSGOL PENDREF, DINBYCH

[Ystyriwyd y mater hwn fel mater brys, a rhoddodd y Cadeirydd rybudd o hyn ar ddechrau'r cyfarfod].

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad (a ddisbarthwyd eisoes) am y cais galw i mewn a gyflwynwyd o ran penderfyniad a wnaed gan y Cabinet ar 22 Medi 2020 o ran 'Gwaredu tir yn ymyl Ysgol Pendref, Dinbych'. Roedd y Cabinet wedi penderfynu -

- cymeradwyo gwaredu tir yn ymyl Ysgol Pendref, Dinbych a amlinellir mewn coch ar y cynllun (Atodiad A yr adroddiad) nad oes ei angen ar y Cyngor, ar y farchnad agored ar gyfer datblygiad preswyl, a dirprwyo awdurdod i'r Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol i gymeradwyo'r gwerthiant terfynol, a
- chadarnhau ei fod wedi darllen, deall a chymryd yr Asesiad o'r Effaith ar Les i ystyriaeth (Atodiad B o'r adroddiad) fel rhan o'i benderfyniad.

Roedd hysbysiad 'galw i mewn' wedi'i gyflwyno gan y Cynghorydd Glenn Swingler, gyda chefnogaeth pedwar cynghorydd arall. Ar ôl gwahoddiad gan y Cadeirydd, nododd y Cynghorydd Swingler y sail dros alw'r adolygiad o'r penderfyniad fel a ganlyn -

1. *Mae'r tir hwn yn enghraifft o ragor o dir sy'n eiddo i'r Cyngor yn cael ei werthu ar gyfer ateb sydyn i lenwi bylchau'r gyllideb.*
2. *Mae hyd at 300 o dai yn cael eu hadeiladu yn Ninbych Uchaf ar safle Ysbyty Gogledd Cymru ac nid oes angen rhagor o dai fforddiadwy (gan mwyaf).*
3. *Tir fferm yw'r tir ar hyn o bryd.*
Dylem ni fod yn cefnogi rhagor o bobl i mewn i faes ffermio. Nid ydym yn gwybod eto beth fydd effaith Brexit ar ddiogelu'r cyflenwad bwyd a byddai'n adeg ffôl i waredu'r tir hwn nawr.
4. *Er ei fod yn sôn nad yw'r tir yn addas ar gyfer adeilad newydd ar gyfer Ysgol Pendref, dim ond amser byr iawn yn ôl y cytunodd y Cabinet i Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif newydd a dechrau ymarfer cwmpasu.*
Ydi'r ymarfer hwnnw wedi'i gwblhau eisoes?
5. *Pan fydd tir sy'n eiddo i'r bobl wedi'i werthu i fentrau preifat, nid oes troi'n ôl.*
Sut mae'r Cabinet yn sicr na fydd angen y tir yn y dyfodol?
6. *Siawns na ddylem ni fod yn adeiladu rhagor o dai cymdeithasol?*

Roedd yr Aelod Arweiniol, y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Rheolwr Rhaglen – Datblygiad Tai a'r Pen Syrfêwr Prisio ac Ystadau yn bresennol. Eglurodd yr Aelod Arweiniol leoliad y safle yn Ninbych a oedd yn 6.97 erw. Ymatebodd i'r sail a gyflwynwyd ar gyfer y cais galw i mewn hefyd fel a ganlyn -

- roedd y tir wedi'i gadw yn y Cyfrif Refeniw Tai ac felly byddai unrhyw dderbyniad cyfalaf o'r gwerthiant yn cael ei glustnodi ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai ac ni ellid ei ddefnyddio mewn man arall.

Roedd gan y Cyfrif Refeniw Tai dair ffynhonnell incwm i gyflawni ei raglen waith ac roedd derbyniadau cyfalaf yn elfen allweddol o hyn. Roedd rhagdybiaeth am werthu'r tir wedi'i gynnwys yn y cynllun busnes treigl ar gyfer stoc dai 30 mlynedd felly os na ellid sicrhau derbyniad cyfalaf, byddai llai o gyllid ar gael i ddarparu cartrefi rhent cymdeithasol newydd neu i gyflawni gwaith cynnal a chadw ar stoc dai bresennol.

- o ran niferoedd tai yn y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) presennol, nid oedd cynhwysiant ar gyfer unrhyw un o'r datblygiadau galluogi ar Safle Ysbyty Gogledd Cymru ar hyn o bryd, ac nid oedd dyraniadau a pholisïau tai fforddiadwy'r cyngor yn gwneud unrhyw ragdybiaethau o ran unrhyw unedau fforddiadwy ar y safle penodol hwnnw.

Roedd y safle hwn, ymhlith eraill, wedi'i ddyrannu i fynd i'r afael ag anghenion tai yn rhannol ar gyfer pob math o ddeiliadaeth yn Ninbych a byddai'n darparu dwywaith gymaint o unedau fforddiadwy y byddai eu hangen dan delerau'r CDLI.

- nid oedd y tir yn dir fferm ar ôl cael ei ddyrannu at ddibenion preswyl yn y CDLI yn 2013 yn dilyn yr holl brosesau priodol a'r camau ymgynghori.

Roedd y tir wedi'i ddatgan fel tir nad oes ei angen at ddibenion ystadau amaethyddol yn 2015 a'i briodoli i mewn i'r Cyfrif Refeniw Tai yn 2016. Yn dilyn hynny, roedd Briff Datblygu Safle wedi'i fabwysiadu a'i gymeradwyo'n unfrydol gan y Pwyllgor Cynllunio yn 2017. Roedd tenant blaenorol y fferm yr oedd y tir ynghlwm wrtho o'r blaen wedi prynu'r rhan fwyaf o'r daliad tir roedd wedi'i rentu o'r blaen ond roedd y tir penodol hwn wedi'i eithrio'n benodol o'r pryniant hwnnw ganddo.

- eglurwyd protocol gwaredu'r cyngor fel y cafodd ei weithredu yn yr achos hwn a dim ond y Cyfrif Refeniw Tai oedd yn dangos gofyniad am y tir.

Er mai dim ond yng nghyfarfod diwethaf y Cabinet roedd yr argymhelliad ar safleoedd i fynd ymlaen i Fand B Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif wedi'i drafod, roedd yr Adran Addysg wedi bod yn gwbl ymwybodol o'r cynigion ar gyfer y tir hwn ac roeddent wedi dweud na fyddent yn edrych ar y safle penodol hwn at ddibenion addysg ac roeddent yn cefnogi priodoli'r tir i'r Cyfrif Refeniw Tai.

- o ran tai cymdeithasol, roedd cynllun busnes 30 mlynedd gyda lle i adeiladu 220 o eiddo ychwanegol (170 o fewn oes y Cynllun Corfforaethol presennol).

Nid oedd digon o le yn y cynllun busnes i'r cyngor a landlordiaid cymdeithasol ddiwallu'r holl anghenion tai cymdeithasol, ac roedd hon yn sefyllfa gyffredin nad oedd yn unigryw i Sir Ddinbych. Penderfynwyd ar nifer a lleoliad datblygiadau tai ychwanegol yn dilyn dadansoddiad o'r gofrestr tai sengl gan ganiatáu ar gyfer unrhyw gynlluniau sydd ar droed a chyflwr ac addasrwydd stoc tai presennol. Roedd Dinbych wedi cyfrif am tua 10% o'r angen cyffredinol a dyfarnwyd contract diweddar ar gyfer 22 o gartrefi rhent cymdeithasol ar dir wrth Tan y Sgubor. Roedd profion sydyn oedd wedi'u cynnal ar y farchnad wedi dangos y byddai 20% o gynhwysiant fforddiadwy yn hyfyw ar y tir a gynigir ar gyfer gwaredu, a fyddai'n mynd i'r afael â rhan o'r angen a nodwyd a hefyd darparu derbyniad cyfalaf i gefnogi'r cynllun busnes ar gyfer adeiladau newydd a chynnal a chadw. Pwysleisiwyd bod modd gorfodi uchafswm o 10% o dai fforddiadwy a byddai angen sicrhau unrhyw swm uwch na hynny trwy drafodaeth.

I grynhoi, ailadroddodd yr Aelod Arweiniol fod y safle yn ddarn o dir ar ei ben ei hun, nad oedd ei angen ar y tenant fferm blaenorol, ac nad oedd ei angen o bwrpas ystadau amaethyddol ac roedd wedi'i briodoli i'r Cyfrif Refeniw Tai a'i ddyrannu at ddibenion preswyl yn y CDLI yn dilyn y drefn briodol. Roedd Briff Datblygu Safle wedi'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Cynllunio hefyd, ac felly roedd egwyddor datblygiad tai ar y tir wedi'i sefydlu'n dda. Roedd y cyngor yn hynod o annhebygol o fod â'r cyfalaf i adeiladu cynllun o 100 o gartrefi fel datblygiad ar ei ben ei hun, ond mewn rôl datblygwr, gallai ddefnyddio partneriaid o'r sector cyhoeddus a'r sector preifat a oedd yn arfer gyffredin i'r cyngor ar amryw ddatblygiadau. Ychwanegodd y Rheolwr Rhaglen – Datblygiad Tai y byddai gwerthu'r safle yn helpu i weithredu'r cynllun datblygu tai ac roedd dull cytbwys wedi'i ddilyn i sicrhau bod yr eiddo a gaiff eu darparu o'r math cywir yn y lle cywir. Gan ystyried yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael ar gyfer gweithredu cynllun busnes y stoc dai, byddai'r derbyniad cyfalaf o'r safle a'r cartrefi rhent cymdeithasol y byddai'n eu darparu yn mynd tuag at weithredu'r cynllun hwnnw.

Gwahoddodd y Cadeirydd aelodau'r Pwyllgor i ofyn cwestiynau cyn gwahodd llofnodwyr y weithdrefn galw i mewn ac unigolion eraill nad oeddent yn aelodau o'r Pwyllgor i wneud yr un fath. Gofynnwyd cwestiynau am nifer y tai a'r mathau o ddatblygiadau tai sy'n cael eu hadeiladu ar hyn o bryd neu sydd eisoes wedi'u cynllunio ar gyfer Dinbych, yn enwedig o ran tai fforddiadwy a thai rhent cymdeithasol ac anghenion preswylwyr lleol. Cyfeiriodd y Cynghorydd Rhys Thomas at y fframwaith datblygu cenedlaethol newydd drafft – 'Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040' a goblygiadau ar gyfer datblygiadau tai'r dyfodol a diwallu anghenion o ran tai fforddiadwy a thai cymdeithasol. Roedd yn awyddus i'r uchelgeisiau hynny gynyddu faint o dai fforddiadwy a thai cymdeithasol a ddarperir ynghyd â'r cyllid i annog darpariaeth i gael ei ddatblygu er budd preswylwyr lleol yn Ninbych, yn enwedig o ystyried anghenion tai penodol yr ardal.

Gwnaeth yr Aelod Arweiniol a Rheolwr Rhaglen – Datblygiad Tai ymateb i gwestiynau aelodau a sylwadau fel a ganlyn -

- roedd gwaredu ar y farchnad agored wedi'i argymhell gan ystyried gwerth posibl y tir a gellid gwirio'r pris yn annibynnol i sicrhau gwerth gorau
- roedd ymholiadau wedi dod i law gan landlordiaid cymdeithasol am y datblygiad ac nid oedd unrhyw beth i atal landlordiaid cymdeithasol rhag gwneud cynnig am y safle
- er mai'r gofyniad presennol ar gyfer cartrefi fforddiadwy oedd 10%, roedd achlysuron lle roedd canran uwch wedi'i gytuno trwy drafodaeth
- oherwydd bod angen rhoi isadeiledd yn y safle fel priffyrdd, cyfleustodau ac ati, byddai'n fwy cost effeithiol pe bai un datblygwr yn delio ag agor y safle i ddechrau yn hytrach na thorri'r tir i lawr yn blotiau llai – gallai'r datblygwr drosglwyddo blociau llai i landlordiaid cymdeithasol eraill o bosibl
- nid oedd gan y safle ganiatâd cynllunio amlinellol ond roedd Briff Datblygu Safle wedi'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Cynllunio yn 2017, ac roedd yr adroddiadau i'r Pwyllgor Cynllunio ac yn fwy diweddar i'r Cabinet, wedi annog diddordeb gan ddatblygwyr
- cadarnhawyd bod modd i unrhyw ddatblygwr gysylltu â'r cyngor ar unrhyw adeg ond er mwyn sicrhau gwerth gorau, y drefn arferol oedd cynnal profion marchnad ar y safle i ddechrau

- roedd y cynnig ar gyfer tua 20 o gartrefi rhent cymdeithasol ar y safle ac roedd contract wedi'i ddyfarnu'n ddiweddar ar gyfer 22 o gartrefi rhent cymdeithasol pellach ar dir cyfagos yn Nhan y Sgubor, a oedd yn dod i 42 o gartrefi rhent cymdeithasol ychwanegol ar gyfer y ward wedi'u gosod trwy Gyfrif Refeniw Tai y Cyngor
- byddai awdurdodau lleol yn gallu cael mynediad i grant tai cymdeithasol Llywodraeth Cymru (LIC) o fis Ebrill 2021 ond byddai'r cyllid yn cael ei frigidorri o gyllidebau presennol a byddai'n swm cyfyngedig y byddai Awdurdodau Lleol yn gwneud cais yn erbyn ei gilydd amdano ac mae'n debygol y byddai angen iddynt gyfrannu'n ariannol hefyd.
Byddai'r gyfradd ymyrraeth o 58% ar gyfer landlordiaid cymdeithasol yn cael ei diogelu ac nid oedd disgwyl i'r swm i awdurdodau lleol fod yn fawr a byddai'n gyfradd ymyrraeth newidiol yn dibynnu ar hyfywedd pob datblygiad unigol – nid oedd unrhyw gyllid newydd wedi'i gyhoeddi gan LIC o ran unrhyw ymrwymiad i gynyddu tai fforddiadwy. Deallwyd hefyd y byddai cyfeiriadau yn y fframwaith datblygu cenedlaethol newydd at safleoedd datblygu a gaiff eu harwain gan dai fforddiadwy yn berthnasol i ddyraniadau'r dyfodol yn unig, ac nid i'r safle hwn, oherwydd ei fod yn ddyraniad presennol.
- gan ystyried mai'r bwriad oedd defnyddio'r derbyniad cyfalaf o werthu'r tir i ariannu'r cynllun busnes stoc dai, byddai unrhyw oedi yn lleihau nifer yr eiddo y gellid eu darparu o ganlyniad.
- byddai'r cynnig o fudd i'r ward trwy ddarparu dwywaith gymaint o gartrefi rhent cymdeithasol ag arfer trwy'r system gynllunio.
Hyd yn oed os nad oedd eiddo yn y categori fforddiadwy, roeddent yn dal i gynnig manteision i'r ardal o ran masnach, gwariant a swyddi a chyfeiriwyd at y dull yng Ngorllewin y Rhyl lle roedd rhan o'r gweithgarwch adfywio yn cynnwys cymysgedd o ddeiliadaethau.
- pe na bai gwerthiant y tir yn digwydd byddai 20 o unedau fforddiadwy'n cael eu colli o bosibl, ac o ystyried cymeradwyaeth flaenorol, roedd y cynllun busnes stoc dai wedi cymryd derbyniad cyfalaf ar gyfer ail-fuddsoddi mewn adeiladau newydd a gwaith atgyweirio, a byddai'n cael effaith negyddol ar ei ddarpariaeth pe na bai'n dod i law.
- roedd galw heb ei fodloni ar gyfer tai fforddiadwy ac anfforddiadwy yn Ninbych a Sir Ddinbych yn gyffredinol ac roedd y rhaglen waith a oedd wedi'i datblygu a'i chytuno yn gymesur i'r angen a'r lleoliad.
- dylid darllen ffigurau ULIMaD (Un Llwybr Mynediad At Dai) y cyfeirir atynt mewn cyd-destun o ystyried y gallai ymgeiswyr gofrestru ar gyfer nifer o ardaloedd.
- derbyniwyd na ellid diwallu'r angen cyfan am dai cymdeithasol a'r dull a gymerwyd oedd darparu cynifer o eiddo rhent cymdeithasol trwy'r sir i adlewyrchu'r angen hwnnw o fewn yr adnoddau sydd ar gael ac roedd derbyniadau cyfalaf y rhan hanfodol o ddarparu'r cyllid sy'n angenrheidiol er mwyn mynd i'r afael â'r materion hynny.
- eglurwyd polisi enwi a rhifo a fabwysiadwyd gan yr awdurdod ac eglurwyd yr elfennau bioamrywiaeth sy'n gysylltiedig â'r cynnig.
- ar hyn o bryd, nid oedd prynwr ar gyfer y safle ac roedd y broses bresennol yn ymwneud â gofyn am ganiatâd y Cabinet i werthu'r safle ar y farchnad agored.

Wrth grynhoi, roedd y Cynghorydd Swinger yn cefnogi oedi wrth werthu'r tir wrth aros am eglurder am fframwaith datblygu cenedlaethol newydd Llywodraeth Cymru

er mwyn diwallu anghenion tai lleol yn y ffordd orau i breswylwyr a sicrhau'r math cywir o dai ar gyfer yr ardal, neu sicrhau defnydd gorau o'r tir yn y dyfodol at ddibenion eraill.

Yn ei ddatganiad cloi, ailadroddodd yr Aelod Arweiniol fod y safle wedi bod trwy'r gymeradwyaeth a'r ymgynghoriadau angenrheidiol a'i fod wedi'i ddyrannu ar gyfer tai yn y CDLI. Byddai peidio â gwerthu'r safle yn effeithio ar yr adnoddau sydd ar gael i weithredu'r cynllun busnes stoc dai, ac roedd yn argymhell yn gryf y dylai'r gwerthiant barhau ac nad oedd unrhyw fanteision i'w hennill o oedi â'r gwerthu. Byddai unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth a oedd yn cael ei chyflwyno ar gyfer safleoedd y dyfodol yn cael eu dilyn a phe bai unrhyw gyllid ychwanegol ar gael, byddai hynny'n cael ei groesawu. Byddai parhau â'r gwerthiant yn debygol o ddarparu dwywaith gymaint o dai fforddiadwy ag a nodir yn y CDLI ac roedd ymarferion profi'r farchnad wedi dangos y byddai 20% tai fforddiadwy yn hyfyw a byddai modd darparu hynny a byddai'n mynd rhywfaint o ffordd at fynd i'r afael ag anghenion tai yn y sir.

Ar ôl ystyried y wybodaeth a gyflwynwyd a'r sylwadau a wnaed yn ystod y cyfarfod, gan gynnwys y sail a roddwyd dros alw'r penderfyniad i mewn, roedd y Pwyllgor yn cydnabod bod y tir wedi'i nodi fel tir nad oedd ei angen ar ystâd amaethyddol y cyngor nifer o flynyddoedd yn flaenorol. Cydnabu hefyd na ellid defnyddio unrhyw dderbyniad cyfalaf a gafwyd o werthu tir neu unrhyw ased arall yn gyfreithlon i ariannu gwariant refeniw'r awdurdod nac unrhyw diffyg refeniw. Fodd bynnag, roedd y Pwyllgor yn teimlo bod lle i ofyn i'r Cabinet adolygu ei benderfyniad i gael gwared ar y tir ar sail y nifer o dai a'r mathau o ddatblygiadau tai sy'n cael eu hadeiladu ar hyn o bryd, neu sydd wedi'u cynllunio eisoes ar gyfer Dinbych yn ystod y blynyddoedd nesaf.

Roedd gan y Pwyllgor bryderon y byddai'r datblygiadau yn golygu y byddai gan y dref orgyflenwad o dai anfforddiadwy mawr a chyflenwad annigonol o dai fforddiadwy ac unedau tai cymdeithasol er mwyn diwallu anghenion preswylwyr lleol. Roedd Aelodau o'r farn y byddai datblygu'r tir wrth Ysgol Pendref yn dwysáu'r broblem. Wrth gydnabod y byddai rhywfaint o dai cymdeithasol yn cael eu hadeiladu ar y darn hwn o dir fel rhan o unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol, teimlwyd nad oedd y nifer o unedau tai fforddiadwy a thai cymdeithasol a gynigir ar gyfer y datblygiad yn ddigonol o ystyried bod y darn penodol hwn o dir wedi'i leoli yn un o'r wardiau cyngor mwyaf difreintiedig yng Nghymru, ac felly byddai'r mwyafrif o'r tai a gaiff ei hadeiladu yno yn anfforddiadwy i breswylwyr lleol.

Yn ddiweddar, roedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei fframwaith datblygu cenedlaethol newydd drafft 'Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040' a oedd yn mynd trwy'r broses graffu yn y Senedd ar hyn o bryd, cyn cael ei fabwysiadu yn 2021. Pan fyddai wedi'i fabwysiadu, byddai'r fframwaith hwn yn gosod y cyfeiriad ar gyfer datblygiad ar draws Cymru tan 2040. Er bod y Pwyllgor yn cydnabod mai drafft gweithredol oedd hwn o hyd, roedd pwyslais clir ynddo ar yr angen am ragor o dai fforddiadwy ar draws Cymru.

Cyflwynodd y Cyngorydd Graham Timms gynnig ar sail casgliadau'r Pwyllgor ac fe'i heiliwyd gan y Cyngorydd Glenn Swinger, ac o'i roi i'r bleidlais, gwnaeth y Pwyllgor -

BENDERFYNU argymell i'r Cabinet y dylai -

- (a) *gydnabod casgliadau ac argymhellion y Pwyllgor Craffu Cymunedau yn sgil ei adolygiad o benderfyniadau'r Cabinet ar 22 Medi 2020;*
- (b) *edrych ato ar ei benderfyniad ar 22 Medi 2020, gan roi ystyriaeth i'r weledigaeth ar gyfer tai cymdeithasol a thai fforddiadwy yn y dyfodol fel a nodir yn y fframwaith ddatblygu cenedlaethol newydd drafft 'Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040';*
- (c) *oedi'r penderfyniad o ran y safle penodol hwn am 12 mis nes i'r fframwaith datblygu cenedlaethol newydd gael ei gytuno;*
- (d) *ystyried opsiynau i wneud y tir yn fwy deniadol i landlordiaid cymdeithasol a datblygwyr llai trwy ei rannu'n barseili/darnau llai, a*
- (e) *peidio creu gor-gyflenwad o dai anfforddiadwy mawr yn Ninbych nad ydynt yn diwallu'r angen lleol.*

Daeth y cyfarfod i ben am 1.45pm.

PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd yn Fideo-Gynadledda, Dydd Iau, 22 Hydref 2020 am 10.00 am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Mabon ap Gwynfor, Brian Blakeley, Rachel Flynn, Tina Jones, Merfyn Parry, Andrew Thomas, Graham Timms (Is-gadeirydd), Cheryl Williams a Huw Williams (Cadeirydd)

Roedd yr Aelodau Cyfetholedig Kathleen Jones a Neil Roberts yn bresennol ar gyfer eitem 5 ar y rhaglen.

Roedd y Cyng. Huw Hilditch-Roberts, Aelod Arweiniol Addysg, Gwasanaethau Plant ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd yn bresennol ar gyfer eitem 5 ar y rhaglen.

Roedd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol yn bresennol ar gyfer eitem 6 ar y rhaglen.

Roedd y Cynghorydd Tony Thomas, Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau yn bresennol ar gyfer eitem 7 ar y rhaglen.

Arsylwyr – Y Cynghorwyr Meirick Lloyd Davies, Bobby Feeley, Martyn Holland, Gwyneth Kensler ac Emrys Wynne.

HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a'r Parth Cyhoeddus (GB), Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau (NS), Pennaeth Addysg Dros Dro (GD), Prif Reolwr – Cefnogi Ysgolion (JC), Pennaeth y Gyfraith, AD a Gwasanaethau Democrataidd (Swyddog Monitro) (GW), Rheolwr Buddion Cymunedol (KB), Rheolwr y Fframwaith (TS), Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio (AS), Rheolwr Gwasanaethau Cefn Gwlad a Threftadaeth Sir Ddinbych (HR), Rheolwr Tîm Gwybodaeth Busnes (CB), Cydlynnydd Craffu (RhE) a Gweinyddwr Pwyllgorau (RhTJ).

Roedd y Gohebydd Democratiaeth Leol a chynrychiolydd o Archwilio Cymru hefyd yn bresennol o bell er mwyn arsylwi'r cyfarfod.

DALIWCH SYLW

Yn sgil y cyfyngiadau presennol ar deithio a'r gofyniad i gadw pellter cymdeithasol oherwydd pandemig y coronafeirws, cynhaliwyd y cyfarfod o bell trwy gyfrwng fideo gynadledda ac nid oedd ar agor i'r cyhoedd. Cafodd pob aelod gyfle i fynychu fel arsylwyr. Gwahoddwyd y Gohebydd Democratiaeth Leol a chynrychiolydd o Archwilio Cymru hefyd i arsylwi.

1 YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Anton Sampson a'r Cynghorydd Glenn Swingler.

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies gysylltiad personol ag eitem 4 ar y rhaglen, 'Cofnodion' gan ei fod yn aelod o Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

Datganodd yr aelodau canlynol gysylltiad personol ag eitem 5 ar y rhaglen, 'Effaith Adolygiad Addysg Gynradd Rhuthun':

Y Cynghorydd Huw O Williams – mae'n rhiant i ddisgybl sy'n mynychu un o'r ysgolion

Y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies – mae'n Llywodraethwr yn Ysgol Cefn Meiriadog

Y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts – mae'n Rhiant a Llywodraethwr yn Ysgol Pen Barras

Y Cynghorydd Merfyn Parry – mae'n Llywodraethwr yn Ysgol Bryn Clwyd ac Ysgol Gellifor

Aelod Cyfetholedig Neil Roberts – mae'n Llywodraethwr yn Ysgol Borthyn

Y Cynghorydd Cheryl Williams – mae'n Llywodraethwr yn Ysgol Crist y Gair

Y Cynghorydd Emrys Wynne – mae'n Llywodraethwr yn Ysgol Brynhyfryd ac Ysgol Borthyn

Y Cynghorydd Martyn Holland – mae'n Llywodraethwr yn Ysgol Bro Famau

Y Cynghorydd Andrew Thomas – mae'n Llywodraethwr yn un o ysgolion y sir

Y Cynghorydd Tina Jones – mae'n Llywodraethwr yn Ysgol Melyd

Y Cynghorydd Graham Timms – mae'n Llywodraethwr yn Ysgol Dinas Brân, Llangollen

3 MATERION BRYN FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Adolygu Penderfyniad y Cabinet o ran Gwaredu Tir Wrth Ymyl Ysgol Pendref, Dinbych: Gwahoddodd y Cadeirydd yr Is-Gadeirydd i annerch y Pwyllgor o ran ymateb y Cabinet i argymhellion y Pwyllgor yn dilyn ei archwiliad o'r penderfyniad uchod. Er bod y Cabinet wedi trafod argymhellion y Pwyllgor yn fanwl ac roedd hanner aelodau'r Cabinet wedi cefnogi argymhellion y Pwyllgor, roedd y Weithrediaeth wedi cadarnhau ei benderfyniad gwreiddiol, ar bleidlais fwrw'r Cadeirydd. Nododd Is-Gadeirydd y Pwyllgor ei siom gyda'r canlyniad, a holodd a allai'r Pwyllgorau Craffu fyth berswadio'r Cabinet i adolygu eu penderfyniadau.

Dywedodd yr aelodau gweithrediaeth a oedd yn bresennol yn y cyfarfod presennol eu bod o'r farn bod y Pwyllgor Craffu wedi dal y sawl sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif a'u bod wedi creu trafodaeth adeiladol. Roedd nifer o faterion wedi codi a oedd yn debygol o gael eu hystyried wrth benderfynu ar bolisi cynllunio yn y dyfodol. Roedd defnyddio'r bleidlais fwrw wedi amlygu bod Cabinet y Cyngor yn gytbwys, a'i fod yn cynnwys aelodau â gwahanol safbwyntiau.

4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd ar 3 Medi, 2020.

Materion sy'n Codi -

Rhoddodd y Swyddog Craffu wybod i'r Pwyllgor bod Swyddog Rheoli Rhostiroedd wedi cael ei benodi'n ddiweddar, fodd bynnag, roedd y Gwasanaeth Tân wedi cadarnhau eto na fyddent yn ariannu'r swydd ar y cyd gan y teimlwyd y byddai darparu'r gefnogaeth ariannol hon yn golygu eu bod yn rhoi blaenoriaeth dros eraill sy'n ceisio cyllid. Fodd bynnag, byddai'n rhaid i'r Gwasanaeth barhau i ddarparu Cyngor a Chefnogaeth lle bo angen. Mynegodd Aelodau eu siomedigaeth â'r penderfyniad hwn.

Roedd cytundeb ar yr argymhelliad trwy gonsensws. Ni chymerwyd pleidlais ffurfiol. Dywedodd pob aelod eu bod o blaid yr argymhelliad, ni ddywedodd unrhyw un eu bod yn ei erbyn ac ni ddywedodd unrhyw un eu bod eisiau atal eu pleidlais.

Penderfynwyd: - derbyn a chymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd ar 3 Medi 2020 fel cofnod cywir.

5 EFFAITH ADOLYGIAD ADDYSG GYNRADD RHUTHUN

Roedd y Pennaeth Addysg Dros Dro, Geraint Davies (GD), Prif Reolwr – Cefnogi Ysgolion, James Curran (JC) yn bresennol ar gyfer yr eitem hon.

Cyflwynodd y Cyngorydd Huw Hilditch-Roberts adroddiad yn darparu gwybodaeth ynghylch effaith adolygiad Addysg Gynradd Rhuthun yn erbyn saith nod lles Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Cytunodd Cabinet Sir Ddinbych ym mis Tachwedd 2012 i ddechrau ymgynghoriad anffurfiol ar adolygiad o Addysg Gynradd yn ardal Rhuthun. Cytunwyd y byddai adolygiad yr ardal yn canolbwyntio ar yr amcanion canlynol: sicrhau cynaliadwyedd darpariaeth addysg o ansawdd uchel; gwella ansawdd adeiladau ysgol a chyfleusterau a darparu'r nifer cywir o lefydd, o'r math cywir yn y lleoliad cywir. Adolygodd y Cabinet ganfyddiadau'r ymgynghoriad anffurfiol a gwnaethpwyd chwe argymhelliad a fyddai'n cael effaith ar ddarpariaeth ysgolion yn yr ardal.

Yn ei hanfod, roedd y canlyniadau yn gadarnhaol ar gyfer y mwyafrif o bobl, roedd yr ardal wedi elwa o fuddsoddiad sylweddol, ond dysgwyd gwersi yn sgil rhai profiadau hefyd h.y, yr ymgynghoriad ar ddyfodol Ysgol Pentrecelyn ac Ysgol Llanbedr D.C. Ar y cyfan, roedd yr ymgynghoriad yn brofiad buddiol. Roedd plant yn derbyn addysg mewn amgylcheddau da ac roedd cryn dipyn o arian wedi'i fuddsoddi yn ardal Rhuthun. Mae cynnydd wedi bod yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal hefyd.

